**LC423**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002**

Mae’r rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000 ac yn cyflwyno dulliau rheoli dros dro yn eu lle.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Nodyn Esboniadol**

Mae’r paragraff cyntaf yn datgan bod y rheoliadau hyn yn datgymhwyso dros dro (“temporarily disapply”) reoliadau 2000. Er mai rheoliadau dros dro yw’r rhai presennol, maent fodd bynnag, yn diddymu, yn hytrach na datgymhwyso dros dro, reoliadau 2000.

Gan mai mesur dros dro yw hwn, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai’r dyddiad dod i ben wedi’i nodi.

**Rheoliad 2(1) – Marc X**

Gan fod yr holl farciau eraill wedi’u diffinio, o ran cysondeb byddai wedi bod yn fuddiol pe bai diffiniad tebyg wedi’i gynnwys ar gyfer “Marc X” (trwy gyfeirio at reoliad 6(1) ac (8)). Fodd bynnag gan mai mater o anghysondeb yw hyn yn unig, nad yw’n effeithio’n sylweddol ar y dehongli, nid ystyrir bod angen adrodd yn ffurfiol arno fel drafftio diffygiol.

**Tudalen 4 – troednodyn (b)**

Bydd angen cwblhau’r cyfeirnod OS yn y fersiwn cyhoeddedig.

**Rheoliad 18 – pennawd**

Mae hwn yn cyfeirio at “Suspension” er bod rheoliadau 2000, mewn gwirionedd, wedi’u diddymu.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Chwefror 2002